# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 7 Rhagfyr 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol

**C6 Alun Cairns:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth sicrhau mynediad am ddim i oedolion i'n hamgueddfeydd cenedlaethol? (OAQ8341)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru eisoes yn cynnig mynediad am ddim i'w holl ganghennau ar gyfer plant a phobl ifanc dan 19, pobl dros 60 a phobl ddi-waith. Mae'r gyllideb ddrafft yn rhyddhau £600,000 i'w galluogi i gyflwyno tâl mynediad unffurf o £1 yn unig i oedolion o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen. Yn ogystal, cyhoeddasom y dyrannwyd arian ychwanegol a fydd yn galluogi'r Amgueddfa Genedlaethol i ymestyn mynediad am ddim i ragor gan gynnwys myfyrwyr a phobl anabl o fis Ebrill nesaf ymlaen.

### Diwydiannau Chwaraeon a Diwylliant (Adfywio Cymunedau)

**C7 Helen Mary Jones:** Sut y bydd Jenny Randerson yn sicrhau bod y diwydiannau chwaraeon a diwylliant yng Nghymru yn cyfrannu tuag at adfywio ein cymunedau? (OAQ8323)

**Jenny Randerson:** Byddaf yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, ynghyd â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd cydlynol ac amrywiol iawn i ddatblygu cymunedau yng Nghymru.

Ceir tystiolaeth bendant i ddangos bod chwaraeon, y celfyddydau a'r diwydiannau diwylliannol ehangach yn cael effaith sylweddol ar adfywio cymunedau, ar ddarparu cyfleusterau cymunedol, ar fagu hyder cymunedau, ar feithrin sgiliau ac ar sicrhau mynediad mwy cyfartal at amrediad mawr o gyfleoedd.

### Canolfan Ucheldre yng Nghaergybi

**C8 Peter Rogers:** Pa sylwadau y mae Jenny Randerson wedi'u cael ynglŷn â'r problemau a wynebir gan Ganolfan Ucheldre, Caergybi? (OAQ8335)

**Jenny Randerson:** Ni chefais unrhyw sylwadau am unrhyw broblem yn y ganolfan, er fy mod wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â hi pan fyddaf yn yr ardal nesaf.

### Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant nad ydynt yn Gymraeg eu Cyfrwng

**C9 Richard Edwards:** Sut mae Jenny Randerson yn bwriadu hyrwyddo celfyddydau a diwylliant nad ydynt yn Gymraeg eu cyfrwng yng Nghymru? (OAQ8252) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Pennu Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl Banc Cenedlaethol**

**C10 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau y mae Jenny Randerson wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â phennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc cenedlaethol yng Nghymru? (OAQ8328)

**Jenny Randerson:** Ni chefais unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â phennu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc yng Nghymru. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo geisio barn ei gyd-Aelodau yn y Cabinet am wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc.

**Cyflwyno Amcanion y Weinyddiaeth**

**C11 Jocelyn Davies:** A fydd cyllideb ddrafft 2001-04 yn caniatáu i'r weinyddiaeth gyflwyno ei hamcanion mewn perthynas â'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ8325) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfansoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru**

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A yw Jenny Randerson wedi ystyried ffyrdd o ryddhau Cyngor Celfyddydau Cymru o hualau y cyfansoddiad presennol sydd yn rheoli ei weithgareddau? (OAQ8368) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mewnbwn i Ddeddfwriaeth Arfaethedig San Steffan**

**C13 Gareth Jones:** Pa ystyriaeth y mae Jenny Randerson wedi'i rhoi i ddulliau o sicrhau mewnbwn effeithiol i ddeddfwriaeth arfaethedig San Steffan ar ddarlledu a chyfathrebu? (OAQ8327) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

**C14 David Davies:** Pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd heb eu cynnwys ar hyn o bryd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993? (OAQ8298)

**Jenny Randerson:** Mae Adran 6 (1) (a) i (n) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhestru'r sefydliadau sydd yn gyrff cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf honno. Rhestrir eraill yng Ngorchmynion Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 a 1999.

Nid yw unrhyw sefydliad nas rhestrir yn yr un o'r lleoedd hynny yn gorff cyhoeddus cyfredol at ddibenion y Ddeddf. Bwriadaf gyflwyno deddfwriaeth eilaidd ddrafft er mwyn dynodi rhagor o sefydliadau fel cyrff cyhoeddus.

**Datblygu Amgueddfeydd y Tu Allan i Gaerdydd**

**C15 Mick Bates:** Pa gamau y mae Jenny Randerson yn eu cymryd i ddatblygu amgueddfeydd y tu allan i Gaerdydd? (OAQ8287)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi penderfynu gofyn i'r Amgueddfa Genedlaethol weithio gyda'r Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru i bwyso a mesur y posibilrwydd o sefydlu partneriaethau arddangosfeydd i alluogi amgueddfeydd lleol i rannu ac arddangos eitemau o gasgliad helaeth yr Amgueddfa Genedlaethol. Bydd hynny'n ymestyn rôl sefydliadau lleol ac yn galluogi'r Amgueddfa Genedlaethol i arddangos rhagor o waith i gynulleidfa fwy.

**Dinas Ddiwylliannol Ewrop yn 2008**

**C16 Jonathan Morgan:** A yw Jenny Randerson wedi derbyn unrhyw sylwadau gan gynrychiolwyr o ddinasoedd yng Nghymru sydd yn bwriadu ymgeisio am statws Dinas Ddiwylliannol Ewrop yn 2008? (OAQ8373) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhaglen Waith Flynyddol y Llywodraeth**

**C17 Owen John Thomas:** Sut y mae Jenny Randerson yn esbonio absenoldeb unrhyw gynlluniau ar gyfer chwaraeon yn rhaglen waith flynyddol y Llywodraeth? (OAQ8369)

**Jenny Randerson:** Mae gennym eisoes gynlluniau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer datblygu chwaraeon yng Nghymru, a amlinellwyd yn nogfen Cyngor Chwaraeon Cymru, 'Pobl Ieuainc yn Gyntaf: Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru', sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Yn ogystal, mae ein cyllideb ddrafft yn cynnwys cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gyfer y Cyngor Chwaraeon, ac yr ydym yn cymryd rhan yng ngwaith dau weithgor. Mae'r cyntaf ar addysg gorfforol mewn ysgolion, a'r llall ar ddulliau o annog ffyrdd egnïol o fyw.

**Arian Cyfatebol ar gyfer Mentrau Chwaraeon**

**C18 Richard Edwards:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch y ddarpariaeth o arian cyfatebol ar gyfer mentrau chwaraeon yng Nghymru? (OAQ8251) ***Tynnwyd yn ôl.***

**C19 Nick Bourne:** A wnaiff Jenny Randerson ddatgan unwaith eto ei bod yn cefnogi'r syniad o ddarlledu newyddion o Gymru ar y BBC am chwech o'r gloch yn hytrach na'r 'Six o' clock News'? (OAQ8308) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Codi Proffil Chwaraeon yng Nghymru**

**C20 David Lloyd:** Pa fesurau fydd y weinyddiaeth yn eu cyflwyno yn ystod y 12 mis nesaf i godi proffil chwaraeon yng Nghymru? (OAQ8324) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu'r Diwydiant Ffilm yng Nghymru**

**C21 Kirsty Williams:** Sut y mae Jenny Randerson yn bwriadu datblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru? (OAQ8351)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn annog yr asiantaethau allweddol i edrych ar y Gronfa strwythurol Ewropeaidd a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd am gefnogaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt eisoes rhwng Sgrîn a Chyllid Cymru ynghylch sefydlu cronfa ffilm. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gefnogi gweithgareddau gwneud ffilmiau. Yr wyf yn rhoi ystyriaeth frys i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Diwylliant yn Gyffredin, gyda golwg ar fwrw'r rhain yn eu blaenau.

**Dod â'r Cwpan Ryder i Gymru**

**C22 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Jenny Randerson yn eu cymryd i gefnogi'r ymgyrch i ddenu'r Cwpan Ryder i Gymru? (OAQ8284)

**Jenny Randerson:** Cyfranogais mewn digwyddiad lansio traws-bleidiol ar 31 Hydref i ennyn cyhoeddusrwydd i'r cyflwyniad i'r Gymdeithas Golffwyr Proffesiynol ar ddiwrnod cais Cymru i gynnal Cwpan Ryder. Mae'r ymdrech tîm ardderchog rhwng y Cynulliad, safle'r Celtic Manor, ei undebau golffio, y cyrff noddedig a llywodraeth leol, wedi cynhyrchu cais trawiadol, a gobeithiaf y bydd yn darbwyllo'r Gymdeithas Golffwyr i ddod â'r digwyddiad i Gymru.

**Polisi ar Gelfyddyd a Diwylliant (Partneriaeth a Chydweithio)**

**C23 Cynog Dafis:** Sut y bydd y weinyddiaeth yn sicrhau bod y polisi ar gelfyddyd a diwylliant yn datblygu ar sail partneriaeth a chydweithio gyda phob grŵp perthnasol yn y gymuned gelfyddydol? (OAQ8331) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sefydlu Oriel Celfyddyd Fodern Genedlaethol**

**C24 David Melding:** Pryd y bydd Jenny Randerson yn gwireddu'r addewid a wnaethpwyd yn y maniffesto i sefydlu oriel celfyddyd fodern genedlaethol? (OAQ8283) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ail-sefydlu Marathon i Gymru**

**C25 John Griffiths:** A wnaiff Jenny Randerson edrych ar y posibilrwydd o ail-sefydlu marathon amlwg i Gymru fydd yn denu niferoedd uchel o redwyr? (OAQ8300)

**Jenny Randerson:** Mater rhwng y corff llywodraethu chwaraeon, Cymdeithas Athletwyr Cymru, a'r awdurdod lleol perthnasol fyddai unrhyw gynnig i drefnu digwyddiad o'r fath. Buaswn, wrth gwrs, yn croesawu unrhyw gynllun y byddent yn penderfynu arno o bosibl.

**Gweithredu Polisi'r Cynulliad ar gyfer yr Iaith Gymraeg**

**C26 Owen John Thomas:** A yw Jenny Randerson yn fodlon bod cyllid digonol ar gael er mwyn gwireddu polisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg? (OAQ8374)

**Jenny Randerson:** Bydd ein cyllideb ddrafft yn cynnig dros £2 miliwn ychwanegol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg dros y tair blynedd nesaf. Bydd hynny'n ei alluogi i gynyddu nifer ei staff a fydd yn monitro cynlluniau iaith Gymraeg, ehangu'r mentrau iaith, a gwneud gwaith pellach i annog trosglwyddiad y Gymraeg o fewn y teulu.

**Hybu Diwydiannau Creadigol yng Nghymru**

**C27 Gareth Jones:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ar y mesurau y mae'n eu cymryd i hybu diwydiannau creadigol yng Nghymru? (OAQ8371) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu'r Diwydiant Ffilm yng Nghymru**

**C28 Peter Black:** Sut y mae Jenny Randerson yn bwriadu datblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru? (OAQ8288)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn annog yr asiantaethau allweddol i edrych ar y Gronfa strwythurol Ewropeaidd a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd am gefnogaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt eisoes rhwng Sgrîn a Chyllid Cymru ynghylch sefydlu cronfa ffilm. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gefnogi gweithgareddau gwneud ffilmiau. Yr wyf yn rhoi ystyriaeth frys i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Diwylliant yn Gyffredin gyda golwg ar fwrw'r rhain yn eu blaenau.

**Argymhellion 'Diwylliant Cytûn'**

**C29 Jocelyn Davies:** Beth yw blaenoriaethau Jenny Randerson o ran yr argymhellion a wnaethpwyd yn 'Diwylliant Cytûn'? (OAQ8326) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Denu Mwy o Bobl i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon

**C30 John Griffiths:** Pa bolisïau y bydd Jenny Randerson yn eu dilyn er mwyn denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon? (OAQ8301)

**Jenny Randerson:** Mae ein cyllideb ddrafft yn darparu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i Gyngor Chwaraeon Cymru dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r cyngor i gynnal ei weithgareddau cyfredol a, hefyd, gynnal ymgyrch flaenllaw i gynyddu nifer y menywod a'r merched sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon, a gwella cyfleusterau a mynediad ar gyfer sbortsmyn, yn ddynion a menywod, yn Athrofa Chwaraeon Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Rhoi Cynnig ar Waith

**C6 Jocelyn Davies:** A fu unrhyw ddatblygiadau pellach o ran yr ymdrechion i roi'r cynnig a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mai ar waith? (OAQ8281)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Yr wyf wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU a'r cwmnïau hadau at delerau'r cynnig. Yr wyf hefyd wedi ceisio darbwyllo Michael Meacher i weithredu'n llawer mwy llym wrth iddo bwyso a mesur ceisiadau am ryddhau cnydau ar gyfer eu marchnata. Yr wyf hefyd wedi gofyn i Aventis ddinistrio'r cnwd a addaswyd yn enetig ac a dyfir ar Fferm Birchenfield yn Sir y Fflint a rhoi'r gorau i siarad gyda'n ffermwyr am ragor o dreialon yng Nghymru.

### Sicrhau'r Gwerth Uchaf Posibl i Gig Eidion a Chig Oen Cymru

**C7 Delyth Evans:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau'r gwerth uchaf posibl i gig eidion a chig oen Cymru? (OAQ8274)

**Carwyn Jones:** Mae pethau'n mynd rhagddynt yn dda. Yn ychwanegol at waith i wella safon anifeiliaid drwy'r strategaeth defaid a'r rhaglen gwella cig eidion, mae'r Cynulliad yn parhau i weithio'n agos gyda'r bartneriaeth bwyd-amaeth, Awdurdod Datblygu Cymru, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf ac eraill i ddatblygu a hybu gwerthiant cig oen a chig eidion Cymru gartref a thramor, fel ei gilydd. Mae'r Cynulliad hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r modd y graddir defaid pan y'u gwerthir mewn marchnadoedd.

Bu i werthiant cig oen Cymru i adwerthwyr amryfal yn y DU y llynedd gynyddu 17.5 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Dangosodd gwerthiant cig eidion Cymru yn y DU gynnydd o 28.5 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Dangosodd gwerthiant allforol o gig oen Cymru gynnydd o 13.7 y cant ar y flwyddyn flaenorol ac allforiwyd 250 tunnell o gig eidion Cymru (nid oedd cymhariaeth gyda'r flwyddyn flaenorol ar gael oherwydd y gwaharddiad ar allforio). Dengys y ffigurau hyn gynnydd sylweddol yng ngwerth ein diwydiant da byw.

Ddechrau Tachwedd cefais gyhoeddi bod Oriel Jones a'i Fab o Lanybydder wedi ennill contract i gyflenwi 20 tunnell o lwynau cig oen Cymru i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer ei lluoedd arfog. Mae hwn yn newyddion da iawn i Gymru a ffermwyr Cymru. Mae'r cytundeb yn ganlyniad i waith caled gan sawl sefydliad sydd wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau yr archwilir pob cyfle yn llawn i gael cig Cymru am brisiau cystadleuol.

### Dosbarthu Bwyd mewn Ffordd Deg ac Annibynnol

**C8 Janet Davies:** Sut y gall Carwyn Jones sicrhau bod bwyd yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd deg ac annibynnol gan y Bwrdd Ymyrraeth? (OAQ8261)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn (OAQ8263) yn y Cyfarfod Llawn.

**Cysylltu Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol â Chynlluniau Newydd**

**C9 Gareth Jones:** A yw'n fwriad gan Carwyn Jones gysylltu cynlluniau amaeth-amgylcheddol â chynllun newydd ddyfodiad i ffermwyr? (OAQ8355)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar ystod o syniadau ar gyfer mentrau a fydd yn cynorthwyo newydd ddyfodiaid i ffermio a byddaf yn cyflwyno papur a fydd yn amlinellu'r posibiliadau gerbron y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig cyn bo hir. Byddaf yn ystyried ystod eang o opsiynau posibl i ddarparu cymorth, ac nid wyf yn awyddus i ddiystyried unrhyw bosibiliadau ar hyn o bryd.

**Adnoddau Ewropeaidd**

**C10 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad i egluro sut y mae Trysorlys y DU yn effeithio ar yr adnoddau Ewropeaidd a fwriedir ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru? (OAQ8359)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad wedi dewis defnyddio'r grant Ewropeaidd sydd ar gael ar gyfer cynlluniau o dan gynllun datblygu gwledig Cymru yn bennaf ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, coedwigaeth a Thir Mynydd. Bydd y grant hwn yn cael ei dderbyn yn uniongyrchol gan y Cynulliad ac nid oes gan Drysorlys y DU unrhyw ran i'w chwarae yn y broses.

**Y Cynllun Datblygu Gwledig**

**C11 Phil Williams:** A yw'r mesurau cymhwyso yn y cynllun datblygu gwledig yn cael uchafswm yr arian ychwanegol sydd ar gael o Ewrop, yn ogystal ag arian cyfatebol o'r Trysorlys? (OAQ8267)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad wedi pleidleisio i ddefnyddio'r grant Ewropeaidd a ryddhawyd ar gyfer cynlluniau dan y cynllun datblygu gwledig i Gymru yn bennaf ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, plannu coed a'r cynllun Tir Mynydd—tri o'r pedwar mesur atodol sydd ar gael dan y Rheoliadau Datblygu Gwledig. Dyrannwyd yr holl grant Ewropeaidd sydd ar gael i'w wario ar fesurau penodol yn ystod y cyfnod cynllunio, ynghyd ag arian cyfatebol sylweddol o gyllidebau'r Cynulliad.

**Targedau ar gyfer Newid i Ffermio Organig/Amaeth-Amgylcheddol**

**C12 Helen Mary Jones:** A yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei thargedau ar gyfer nifer y ffermydd sy'n newid i ffermio'n organig/sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol erbyn 2006? (OAQ8282)

**Carwyn Jones:** Nac ydyw. Y targed a nodir yn y ddogfen 'Gwellcymru.com' a gyhoeddwyd fis Ebrill diwethaf yw sicrhau bod 25 y cant o'r tir amaethyddol un ai'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol neu'n cael ei newid i'w ffermio'n organig erbyn Mawrth 2003. Amcangyfrif gofalus o'r cynnydd pellach y gellid ei sicrhau erbyn 2006 yw'r targed o 26 y cant y cyfeirir ato yn y cytundeb partneriaeth, 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

**Cymorth i Bobl Ifanc**

**C13 Elin Jones:** Faint o gyllideb amaethyddiaeth y Cynulliad sydd yn cael ei wario ar roi cymorth i bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ9343)

**Carwyn Jones:** Nid oes modd rhoi ateb union i'r cwestiwn hwn gan fod llawer o'r cyllidebau amaethyddol unigol sydd yn ymwneud â chynlluniau grant ar gael i'r holl ymgeiswyr cymwys, waeth faint yw eu hoedran.

**Lleihau Biwrocratiaeth**

**C14 Christine Humphreys:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn amaethyddiaeth? (OAQ8303)

**Carwyn Jones:** Ym mis Hydref cyhoeddais gynllun gweithredu arolwg o gwsmeriaid ffermydd Cymru; mae hwn yn disgrifio'r camau a gymerir i roi sylw i'r mater hwn. Ymhlith y cynlluniau y mae:

- grŵp cynllunio ffurflenni i edrych ar ffyrdd o safoni a symleiddio'r ffurflenni cais a'r nodiadau canllaw ar gyfer cynllun rheoli'r polisi amaeth cyffredinol
- llyfrau cofnodion diadellau a buchesi am ddim i bawb sydd yn cynhyrchu gwartheg a defaid. Cynhelir 'Clinigau Cofnodion' ledled Cymru i helpu ffermwyr i sicrhau fod eu cofnodion o'r da byw sydd ar eu ffermydd yn bodloni gofynion cynllun yr Undeb Ewropeaidd
- cynhelir gweithdai ar draws Cymru i esbonio'r newidiadau i gynlluniau'r polisi amaeth cyffredinol a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd fel bod ffermwyr yn glir am ba wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu.

**Ensephalopathi Sbyngffurf Buchol yn y Cig sydd yn cael ei Fewnforio i Gymru**

**C15 Alun Cairns:** A yw Carwyn Jones wedi ymchwilio i'r posibilrwydd bod BSE yn bresennol yn y cig sydd yn cael ei fewnforio i Gymru? (OAQ8337)

**Carwyn Jones:** Yn ddiweddar, bu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd roi cyfarwyddyd i'r asiantaethau gorfodi lleol ddwysáu eu harchwiliadau ar gig eidion o dramor a ddaw i'r DU ac archwilio unrhyw gyflenwadau nad oes arnynt ddogfennau digonol, neu os oes amheuaeth am oedran, tarddiad neu'r gallu i olrhain y cig. Ymwelodd swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd â Ffrainc yr wythnos diwethaf i sicrhau bod y rheolaethau sydd ar waith yno yn ddigonol i rwystro'r cig sydd wedi'i wahardd yn Ffrainc rhag cael ei allforio.

**Dyfodol Lladd-dai Bach**

**C16 Glyn Davies:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar ddyfodol lladd-dai bach yng Nghymru? (OAQ8290)

**Carwyn Jones:** Bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn pwyso am symud ymlaen i weithredu argymhellion adroddiad Maclean a chroesawaf y cyhoeddiad a wnaed ar 28 Tachwedd gan Lywodraeth y DU.

O'r flwyddyn nesaf ymlaen byddwn yn gwneud cyfraniad pwysig i leihau bwrn y taliadau hylendid ar ladd-dai bach. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi'n union sut y gweithredir y cynllun maes o law.

**Anghysondeb yn y Gyllideb**

**C17 Dafydd Wigley:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad i egluro'r anghysondebau sydd yn bodoli rhwng yr adran ar y Gymru wledig yn y ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', a'r adnoddau sydd yn cael eu cynnig yn y gyllideb? (OAQ8364)

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn credu bod anghysondebau rhwng 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a'r gyllideb ddrafft. Yn benodol, mae'r datganiad partneriaeth yn nodi'n glir yr adnoddau ychwanegol uwch law'r gwaelodlin sydd yn cael eu neilltuo i gyllidebau amaeth dros y tair blynedd nesaf.

**Cynllun Ffermwyr Ifanc**

**C18 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad i egluro pam nad yw'r cynllun ffermwyr ifanc yn cael ei gynrychioli yn y gyllideb? (OAQ8356)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi datgan fy marn sawl gwaith na fydd cymorth sefydlu ar gyfer newydd-ddyfodiaid, fel sydd yn cael ei argymell gan y Comisiwn Ewropeaidd yn y Rheoliad Datblygu Gwledig, yn cynrychioli gwerth da am arian ac ni fyddai'n debygol ynddo'i hun o gael unrhyw effaith sylweddol. Fodd bynnag, yr wyf wedi cytuno gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y byddaf yn cyflwyno cynigion wedi'u cynllunio i gynorthwyo newydd ddyfodiaid ifanc i mewn i'r diwydiant ffermio fel bod modd eu trafod yn y flwyddyn newydd.

**Tir Gofal**

**C19 Owen John Thomas:** A fydd buddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn y flwyddyn i gynllun Tir Gofal yn ystod y tair blynedd nesaf? (OAQ8363)

**Carwyn Jones:** Bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer Tir Gofal dros y tair blynedd nesaf yn fwy na £40 miliwn—llawer mwy na £10 miliwn y flwyddyn.

**Cymdeithasau sydd yn Rheoli Llwynogod**

**C20 Lorraine Barrett:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar faint o arian sydd yn cael ei dalu gan y Comisiwn Coedwigaeth bob blwyddyn i gymdeithasau sydd yn rheoli llwynogod? (OAQ8296)

**Carwyn Jones:** Talodd y Comisiwn Coedwigaeth £8,215 i gymdeithasau rheoli llwynogod yng Nghymru y llynedd. Mae llawer o goedwigoedd y comisiwn yn terfynu â ffermydd defaid, felly mae'r comisiwn, fel cymydog da, yn rheoli llwynogod drwy eu saethu. Os ceir cymdeithasau rheoli llwynogod ar waith, bydd y comisiwn o bosibl yn gofyn iddynt hwy ddod o hyd i'r llwynogod ar ei dir a'u saethu, gan dalu £25 ar gyfartaledd am bob ymweliad.

**Cynllun Integredig ar gyfer y Gymru Wledig**

**C21 Mick Bates:** Pa gamau y mae Carwyn Jones wedi eu cymryd i lunio cynllun integredig ar gyfer y Gymru wledig? (OAQ8333)

**Carwyn Jones:** Byddaf yn cynnull cyfarfod o'r bartneriaeth wledig yn y flwyddyn newydd a byddaf yn cyflwyno cynigion gerbron y bartneriaeth am sut i fwrw'r materion hyn yn eu blaenau.

**Gwahardd Torri Madruddyn y Cefn**

**C22 Jonathan Morgan:** Pa sylwadau sydd wedi dod i law oddi wrth y diwydiant lladd-dai ynghylch y bwriad i wahardd torri madruddyn y cefn? (OAQ8306) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyswllt Ffermio**

**C23 Alison Halford:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar berfformiad Cyswllt Ffermio o'i gymharu â pherfformiad Cyswllt Busnes? (OAQ8255)

**Carwyn Jones:** Gan fod Cyswllt Ffermio yn dal i gael ei ddatblygu, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad y cynllun hwn gyda pherfformiad Cyswllt Busnes eto.

**Adroddiad Phillips**

**C24 David Lloyd:** Pa effaith a gaiff adroddiad Phillips ar Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ8279)

**Carwyn Jones:** Mae'r materion a godwyd gan adroddiad Phillips yn cael eu pwyso a'u mesur gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynhelir cydgyfarfod o'r Pwyllgorau ym mis Ionawr a bydd eu hadroddiad yn dylanwadu ar y ddadl ddiweddarach yn y Cyfarfod Llawn.

Bellach, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trafodion y Pwyllgor Ensephalopathi Sbyngffurf Ymgynghorol, y pwyllgor ymgynghorol arbenigol sydd yn briffio llywodraeth y DU am BSE a materion CJD amrywiaethol newydd, ac mae ganddo arbenigwr gwyddonol sydd yn gweithredu fel sylwedydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ensephalopathi Sbyngffurf Ymgynghorol. Mae'r Adran Amaethyddiaeth yn cysylltu'n rheolaidd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a sefydlwyd i gynghori ac adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion diogelwch bwyd, a chyda chyd-Aelodau o Adran Iechyd Cyhoeddus y Cynulliad a Gwasanaeth Milfeddygol y Wladwriaeth i sicrhau y rhennir yr wybodaeth berthnasol.

**Cyflogau Isel i Weithwyr Fferm**

**C25 Ann Jones:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad am y cyflogau isel a delir i weithwyr fferm yng Nghymru? (OAQ8354) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diwydiant Cig Llo (Defnyddio Lloi Buchod Godro)**

**C26 Richard Edwards:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran defnyddio lloi buchod godro yn y diwydiant cig llo yng Nghymru? (OAQ8258) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Pa mor Ddiogel yw Cig Eidion o Ffrainc**

**C27 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Carwyn Jones wedi'u cynnal â'i gydweithwyr yn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd mewn perthynas â pha mor ddiogel yw'r cig eidion sydd yn cael ei fewnforio i Gymru o Ffrainc? (OAQ8270)

**Carwyn Jones:** Bûm mewn cysylltiad agos a rheolaidd gyda Gweinidog y DU dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ynghylch y mater hwn.

Mater i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yw diogelwch bwyd yn bennaf ac yr ydym yn aros am ei chyngor ar y mater hwn.

**Lleihau Costau Hylendid Cig**

**C28 Cynog Dafis:** Sut y mae Carwyn Jones yn bwriadu lleihau costau hylendid cig mewn unedau prosesu bychain? (OAQ8345)

**Carwyn Jones:** Mae'r cynigion yn y gyllideb a gyflwynwyd ger bron y Cynulliad Cenedlaethol fis Hydref yn cynnwys darpariaeth i leddfu pwysau o'r fath ar ladd-dai bach. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth y DU wedi dilyn ein harweiniad ni drwy ymrwymo'i hunan i weithredu argymhellion adroddiad Maclean i gynorthwyo lladd-dai bach a chanolig. Bydd gostyngiadau mewn costau cyffredinol yn galluogi amryw o'r lladd-dai lleiaf i oroesi a pharhau i wasanaethu'r gymuned wledig yng Nghymru.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi manylion am sut y bydd y cynllun i gynorthwyo lladd-dai bach yn gweithredu maes o law.

**Effeithiau'r Llifogydd ar Ffermwyr Gogledd Cymru**

**C29 Peter Rogers:** A fydd Carwyn Jones yn cyfarfod â ffermwyr gogledd Cymru i drafod cymorth i fynd i'r afael ag effeithiau'r llifogydd? (OAQ8332)

**Carwyn Jones:** Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer 9 Ionawr.

**Cymorth i Farchnadoedd Fferm**

**C30 Brian Hancock:** Pa gymorth sydd yn cael ei gynnig gan Awdurdod Datblygu Cymru i farchnadoedd fferm sefydledig? (OAQ8278)

**Carwyn Jones:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi'r gwaith o sefydlu marchnadoedd fferm yng Nghymru, ac mae grwpiau rhanbarthol y bartneriaeth bwyd-amaeth mewn sefyllfa dda i sicrhau datblygiadau pellach. Ceir nifer o ffactorau y mae'n rhaid i Awdurdod Datblygu Cymru roi ystyriaeth iddynt wrth edrych ar gefnogaeth ariannol i farchnadoedd fferm ond, yn gyffredinol, bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn rhoi ystyriaeth i geisiadau ar gyfer cymorth yng nghyswllt y costau canlynol:

**a.** costau sefydlu (hyd at 40 y cant ac yn gysylltiedig â maint tebygol y fenter);
**b.** costau sydd yn gysylltiedig â datblygu'r farchnad o safbwynt faint o gynhyrchwyr sydd dan sylw;
**c.** costau sydd yn gysylltiedig â hyrwyddo'r farchnad ymysg y cyhoedd.